**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9:30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Huw Lewis | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Ron Davies, Tom Middlehurst.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-07-2003 (min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
Croesawodd y Cadeirydd Glerc Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol, Ms Christine Salmon, i'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cynnal trafodaeth gyda hi ar ôl ystyried yr Offerynnau Statudol.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC659 – Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) (Diwygio [Rhif 2]) 2003**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad bod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wall drafftio ymddangosiadol yn rheoliad 2(3). Gellid ei gywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.3 Gwnaeth y Pwyllgor sylw hefyd y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC659 (Adroddiad).

**LC660 – Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2003**
3.5 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Safonol.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC660 (Adroddiad).

**LC661 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Diystyru Adnoddau) (Cymru) 2003**
3.8 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC661 (Adroddiad).

**LC662 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Llety Preswyl) (Taliadau Ychwanegol, Cyfraniadau Perthnasol ac Asesu Adnoddau) (Cymru) 2003**
3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.12 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol o ran enwi pwerau, yn rheoliad 6(2) ac yn rheoliad 6(2)(b). Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC662 (Adroddiad).

**LC667 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.15 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol yn rheoliad 2(3), rheoliad 3, rheoliad 4, rheoliad 7(1) a rheoliad 8. Gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.16 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw hefyd y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor ac y gellid eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC667 (Adroddiad).

**LC668 – Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2003**
3.18 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC668 (Adroddiad).

**LC669 – Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) (Diwygio) 2003**
3.21 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.22 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.23 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC669 (Adroddiad).

**LC670 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003**
3.24 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Safonol.

3.25 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Cafodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i weld drafft cynnar a nodwyd nifer o bwyntiau a ystyriwyd yn y drafft terfynol.

3.26 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC670 (Adroddiad).

**LC663 – Rheoliadau Addysg (Peidio â Chodi Tâl sy'n Ymwneud â Theithiau Preswyl) (Cymru) 2003**
3.27 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.28 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.29 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC663 (Adroddiad).

**LC664 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.30 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.31 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.32 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC664 (Adroddiad).

**LC671 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.33 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.34 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.35 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC671 (Adroddiad).

**LC672 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.36 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.37 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.38 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC672 (Adroddiad).

**LC673 – Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003**
3.39 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.40 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.41 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC673 (Adroddiad).

**LC674 – Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003**
3.42 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.43 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.44 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC674 (Adroddiad).

**LC665 – Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003**
3.45 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.46 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.47 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC665 (Adroddiad).

**LC666 – Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003**
3.48 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.49 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio ymddangosiadol yn erthygl 6, erthygl 8(1), atodlen 1 a 2 ac atodlen 3. Mynegodd y Pwyllgor y dylid cywiro'r gwallau drafftio hyn drwy orchymyn diwygio a dylid newid adroddiad y Pwyllgor yn unol â hynny. **Gweithredu: Ymgynghorydd Cyfreithiol**

3.50 Gwnaeth y Pwyllgor hefyd bedwar sylw y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.51 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC666 (Adroddiad).

**LC675 – Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.52 Cyflwynodd Mr Rowlands yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.53 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. ac nid oedd ganddo unrhyw sylwadau ychwaith.

3.54 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC675 (Adroddiad).

**Eitem 4: Trafodaeth â Chlerc y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol Christine Salmon**
4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Christine Salmon ac awgrymodd y dylai Ms Salmon roi cyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar rôl ei Phwyllgor. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan gyflwyniad byr gan Mr Turnbull ar rôl y Pwyllgor Deddfau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai amser i gwestiynau a thrafodaeth ar ôl y cyflwyniadau.

4.2 Cyflwynodd Ms Salmon ei hun fel Clerc Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol Tŷ'r Arglwyddi. Hysbysodd Ms Salmon yr Aelodau fod gan ei Phwyllgor ddwy swyddogaeth ar wahân: i graffu ar y ddarpariaeth mewn Mesurau ar gyfer pwerau dirprwyedig ac i graffu ar orchmynion diwygio rheoliadol. Mae gan y Pwyllgor 9 aelod, a gadeirir gan yr Arglwydd Dahrendorf ac sy'n cwrdd pob 2 neu 3 wythnos. Cynorthwyir y Pwyllgor ganddi hi fel y Clerc a chan Ymgynghorydd Cyfreithiol.

4.3 O ran y swyddogaeth gyntaf, mae'r Pwyllgor yn craffu ar bob mesur sy'n cael ei gyflwyno ger bron Tŷ'r Arglwyddi ac mae'n ceisio cyflwyno adroddiad i'r Tŷ ar fesur cyn ei ailddarlleniad. Diben y broses graffu yw edrych ar y pwerau a ddirprwyir gan y mesur, er mwyn penderfynu p'un a chânt eu dirprwyo'n briodol ac, os felly, p'un a ddefnyddir y lefel briodol o graffu Seneddol. Rôl yr

Ymgynghorydd Cyfreithiol yw nodi'r pwerau dirprwyedig a chynghori'r Pwyllgor ar agweddau cyfreithiol ar briodolrwydd y ddirprwyaeth (er enghraifft, p'un a ydynt yn bwerau â chynsail).

4.4 Mae ail ran rôl y Pwyllgor yn ymwneud â chraffu ar orchmynion diwygio rheoliadol, (lle gall y Llywodraeth addasu deddfwriaeth sylfaenol heb ddefnyddio'r weithdrefn deddfwriaeth sylfaenol). Pan ystyrir gorchymyn diwygio rheoliadol, mae'r Pwyllgor yn defnyddio nifer o feini prawf (a gynhwysir yn Neddf Diwygio Rheoliadol 2001) gan gynnwys p'un a yw'r gorchymyn yn lleddfu beichiau, yn cynnal unrhyw ddiogelwch angenrheidiol a ph'un a gynhaliwyd ymgynghoriad priodol gyda phartïon â diddordeb. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Tŷ ar p'un a yw'r gorchmynion yn dderbyniol. Caiff gorchymyn ei ddychwelyd i'r Pwyllgor yn hwyrach er mwyn iddynt graffu arno am yr ail waith ac, os yw'n dderbyniol, fe'i cyflwynir gerbron y Tŷ. Efallai y caiff adroddiad y Pwyllgor ei drafod. Fel arfer mae adroddiadau'r Pwyllgor, mewn perthynas â'r ddwy swyddogaeth, yn effeithiol iawn.

4.5 Rhoddodd Mr Turnbull gyflwyniad byr ar waith y Pwyllgor Deddfau, gan grybwyll fod y Pwyllgor Deddfau yn cyfateb i'r Cydbwyllgor Seneddol ar Offerynnau Statudol yn Nhŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Senedd yr Alban. Fodd bynnag, nododd mai corff corfforaethol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wahanol i sefydliadau eraill. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor Deddfau yn edrych ar ddeddfwriaeth drafft ac argymhellir mai'r Cynulliad a ddylai lunio'r ddeddfwriaeth hon.

4.6 Cododd y cwestiynau dilynol y pwyntiau canlynol:

- Mae gan y Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol broses ymgynghori eang, beth mae hyn yn ei olygu? Atebodd Ms Salmon ei bod yn ofynnol i adran lywodraethol sy'n hybu gorchymyn diwygio rheoliadol gynnal ymgynghoriad digonol ac yn ôl arweiniad Swyddfa'r Cabinet, dylid cynnal ymgynghoriad am 12 wythnos gyda phob parti sydd â diddordeb. Mae'r Pwyllgor yna'n craffu ar yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau y gofynnwyd yr holl gwestiynau cywir ac y cynhaliwyd y broses gyfan yn gywir.
- O ganlyniad i'r galw cynyddol am atebolrwydd, a ddylid sefydlu corff lled allanol er mwyn ymgymryd â'r holl asesiadau effaith o orchmynion diwygio rheoliadol? Nododd Ms Salmon nad oedd yn credu bod ganddi'r arbenigedd i gynnig barn ar hwn heblaw dweud mai swyddogaeth naturiol senedd ydoedd i graffu ar y gorchmynion hynny.
- Sut mae'r Pwyllgor ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol yn dylanwadu ar bolisïau llywodraethol? Atebodd Ms Salmon nad Pwyllgor polisïau yw'r Pwyllgor. Roedd yn ystyried p'un a oedd dirprwyaeth a'r lefel o graffu a gymhwyswyd yn briodol.
- Sut mae'r Pwyllgor Dethol ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol yn edrych ar y broses o ddirprwyo is-ddeddfwriaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? Nododd Ms Salmon, ers datganoli, mai penderfyniad y Pwyllgor oedd p'un a ddylid dirprwyo pŵer i Weinidog ac, mewn rhai achosion, i'r Cynulliad. Croesawodd farn Aelodau'r Pwyllgor Deddfau ar p'un a fyddai'r ddirprwyaeth yn golygu'r un peth yn y ddau achos a gofynnodd am gael ei hysbysu ar sut yr ymdrinnir â deddfwriaeth yn y Cynulliad. Mynegwyd barn y byddai'r Cynulliad yn gallu amsugno'r pwerau dirprwyedig ysgubol mewn dull mwy cyfiawn. Nododd Aelodau'r Pwyllgor Deddfau yr hoffent weld enghreifftiau o'r Mesurau a ysgogodd y fath gwestiwn. Addawodd Ms Salmon y byddai'n anfon copïau o adroddiadau ei Phwyllgor at Glerc y Pwyllgor Deddfau er mwyn eu dosbarthu i'r Aelodau. **Gweithredu: Clerc**
- A ddangosodd y broses o drosglwyddo pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru beth ddylid ei ddirprwyo i bwy? Dywedodd Ms Salmon fod y Pwyllgor ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoliadol yn ystyried dirprwyaeth fesul achos. Ni chyflwynwyd yr egwyddorion sylfaenol sy'n pennu pryd mae lefel benodedig o ddirprwyaeth yn briodol.
- Os byddai'r Cynulliad yn herio argymhelliad y Pwyllgor ynglŷn â phriodolrwydd dirprwyaeth, beth ddylai ei wneud? Esboniwyd y dylid datrys unrhyw broblemau o'r fath drwy gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

4.7 Diolchodd y Cadeirydd Ms Salmon am gyflwyniad diddorol llawn gwybodaeth ac am ei chyfranogiad yn y drafodaeth.

**Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
5.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Mawrth 2003.